***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 340 (Cy. 84)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol Diwygio Lles) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Mawrth 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Mawrth 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 71, 125, 128, 129, 130, 131, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol Diwygio Lles) (Cymru) 2017 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau 1986" ("*the 1986 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**2**);

ystyr "Rheoliadau 1997" ("*the 1997 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**3**); ac

ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**4**).

### Diwygio Rheoliadau 1986

**3.**—(1) Mae Rheoliadau 1986 wedi eu diwygio yn unol â'r rheoliad hwn.

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 1986/975 fel y'i diwygiwyd.
(**3**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.
(**4**) O.S. 2007/1104 (Cy. 116) fel y'i diwygiwyd.

(2) Yn rheoliad 13 (profion golwg – cymhwystra)—

(a) ym mharagraff (2), yn lle is-baragraff (q) rhodder—

"(q) that person is a relevant universal credit recipient.";

(b) ar ôl paragraff (2A), mewnosoder—

"(2B) In paragraph (2)(q) "relevant universal credit recipient" means a person who, in the relevant assessment period—

(a) had an award of universal credit, either as a single claimant or as one of joint claimants, where—

(i) the award did not include the child element,

(ii) the single claimant or, as the case may be, both joint claimants, did not have limited capability for work, and

(iii) the single claimant had earned income or, as the case may be, the joint claimants had combined earned income, of £435.00 or less;

(b) had an award of universal credit, either as a single claimant or as one of joint claimants, where—

(i) the award included the child element, and

(ii) the single claimant had earned income or, as the case may be, the joint claimants had combined earned income, of £935.00 or less;

(c) had an award of universal credit, either as a single claimant or as one of joint claimants, where—

(i) the single claimant or, as the case may be, one or both joint claimants, had limited capability for work, and

(ii) the single claimant had earned income or, as the case may be, the joint claimants had combined earned income, of £935.00 or less; or

(d) was a qualifying young person for whom a recipient referred to in sub-paragraph (b) or (c) is responsible (within the meaning of Part 1 of the 2012 Act (universal credit) and regulations made thereunder).

(2C) Where paragraph (2D) applies, a person is, for the purposes of regulation 13B(1)(c), to be treated as falling within the description of a relevant universal credit recipient in paragraph (2)(q).

(2D) This paragraph applies where the conditions in sub-paragraphs (a), (b), (c) or (d) of paragraph (2B) are satisfied in the assessment period in which the sight test takes place and—

(a) there is no relevant assessment period; or

(b) none of those conditions were satisfied in the relevant assessment period.";

(c) hepgorer paragraff (3)(e); a

(d) ar ôl paragraff (3), mewnosoder—

"

(4) For the purposes of paragraphs (2B) and (2C)—

"assessment period" means the assessment period for the purposes of universal credit as specified in regulation 21 of the Universal Credit Regulations 2013 (assessment periods)(**5**);

(**5**) O.S. 2013/376.

"child element" means the child element of universal credit as specified in regulation 24(1) of the Universal Credit Regulations 2013 (the child element);

"earned income" means a person's earned income as defined by Chapter 2 of Part 6 of the Universal Credit Regulations 2013 (calculation of capital and income – earned income);

"joint claimants" has the meaning given in section 40 of the 2012 Act (interpretation of Part 1);

"limited capability for work" means limited capability for work or limited capability for work and work-related activity as construed in accordance with regulations 39 and 40 respectively of the Universal Credit Regulations 2013 (limited capability for work; limited capability for work and work-related activity);

"qualifying young person" has the meaning given in section 10(5) of the 2012 Act (responsibility for children and young persons);

"relevant assessment period" means the assessment period immediately preceding that in which the sight test takes place; and

"single claimant" has the meaning given in section 40 of the 2012 Act (interpretation of Part 1).

(3) Yn rheoliad 13B (prawf golwg sy'n cael ei drin fel prawf o dan wasanaethau offthalmig cyffredinol)—

(a) yn lle paragraff (1), rhodder—

"(1) A person whose sight is tested by a contractor, but who was not an eligible person immediately before the testing and is shown—

(a) during the testing to fall within the description specified in sub-paragraph (d) of regulation 13(1);

(b) in accordance with paragraph (3), within 3 months after the testing to fall within any of the descriptions specified in sub-paragraphs (e), (f) or (k) of regulation 13(2); or

(c) within three months after the testing to fall within the description specified in regulation 13(2)(q),

shall be taken for the purposes of the testing to have so fallen immediately before the person's sight was tested."

(b) ym mharagraff (4), ar ôl "(3)" mewnosoder "or (1)(c)".

**Diwygio Rheoliadau 1997**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau 1997 wedi eu diwygio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 8 (cymhwystra – cyflenwi teclynnau optegol)—

(a) yn lle paragraff (3)(q), rhodder—

"(q) that person is a relevant universal credit recipient."

(b) ar ôl paragraff (3), mewnosoder—

"(3A) For the purposes of paragraph (3)(q) "relevant universal credit recipient" means a person who, in the relevant assessment period—

(a) had an award of universal credit, either as a single claimant or as one of joint claimants, where—

(i) the award did not include the child element,

(ii) the single claimant or, as the case may be, both joint claimants, did not have limited capability for work, and

(iii) the single claimant had earned income or, as the case may be, the joint claimants had combined earned income, of £435.00 or less;

(b) had an award of universal credit, either as a single claimant or as one of joint claimants, where—

(i) the award included the child element, and

(ii) the single claimant had earned income or, as the case may be, the joint claimants had combined earned income, of £935.00 or less;

(c) had an award of universal credit, either as a single claimant or as one of joint claimants, where—

(i) the single claimant or, as the case may be, one or both joint claimants, had limited capability for work, and

(ii) the single claimant had earned income or, as the case may be, the joint claimants had combined earned income, of £935.00 or less; or

(d) was a qualifying young person for whom a recipient referred to in sub-paragraph (b) or (c) is responsible (within the meaning of Part 1 of the 2012 Act (universal credit) and regulations made thereunder).

(3B) Where paragraph (3C) applies, a person is to be treated as a person of a description specified in paragraph (2) for the purposes of regulation 20 (payments in respect of optical appliances).

(3C) This paragraph applies where the conditions in sub-paragraphs (a), (b), (c) or (d) of paragraph (3A) are satisfied in the assessment period in which the sight test takes place and—

(a) there is no relevant assessment period; or

(b) none of those conditions were satisfied in the relevant assessment period.";

(c) ar ddiwedd paragraff (4)(b), mewnosoder "and";

(d) ar ddiwedd paragraff (4)(d), hepgorer "; and" a mewnosoder ".";

(e) hepgorer paragraff (4)(e); ac

(f) ar ôl paragraff (4), mewnosoder—

"(4A) For the purposes of paragraphs (3A) and (3C)—

"assessment period" means the assessment period for the purposes of universal credit as specified in regulation 21 of the Universal Credit Regulations 2013 (assessment periods)(**6**);

"child element" means the child element of universal credit as specified in regulation 24(1) of the Universal Credit Regulations 2013 (the child element);

"earned income" means a person's earned income as defined by Chapter 2 of Part 6 of the Universal Credit Regulations 2013 (calculation of capital and income – earned income);

"joint claimants" has the meaning given in section 40 of the 2012 Act (interpretation of Part 1);

"limited capability for work" means limited capability for work or limited capability for work and work-related activity as construed in accordance with regulations 39 and 40 respectively of the Universal Credit Regulations 2013 (limited capability for work; limited capability for work and work-related activity);

(**6**) O.S. 2013/376.

"qualifying young person" has the meaning given in section 10(5) of the 2012 Act (responsibility for children and young persons);

"relevant assessment period" means the assessment period immediately preceding that in which the supply of the optical appliance is paid for; and

"single claimant" has the meaning given in section 40 of the 2012 Act (interpretation of Part 1).".

**Diwygio Rheoliadau 2007**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau 2007 wedi eu diwygio yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(a) (dehongli), yn y diffiniad o "pâr" hepgorer "(i) a (iii)".

(3) Yn rheoliad 5 (hawl i beidio â thalu ffi o gwbl ac i gael taliad llawn)—

(a) yn lle paragraff (1)(aa), rhodder—

"(aa) yn dderbynnydd credyd cynhwysol perthnasol;"

(b) ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

"(1A) At ddibenion paragraff (1)(aa) ystyr "derbynnydd credyd cynhwysol perthnasol" ("*relevant universal credit recipient*") yw person, yn y cyfnod asesu perthnasol—

(a) a gafodd ddyfarniad o gredyd cynhwysol, naill ai fel ceisydd unigol neu fel un o geiswyr ar y cyd—

(i) pan nad oedd y dyfarniad yn cynnwys elfen y plentyn;

(ii) pan nad oedd gan y ceisydd unigol neu, yn ôl fel y digwydd, yr un o'r ceiswyr ar y cyd, allu cyfyngedig i weithio, a

(iii) pan oedd gan y ceisydd unigol incwm a enillir neu, yn ôl fel y digwydd, y ceiswyr ar y cyd incwm a enillir cyfunol, o £435.00 neu lai;

(b) a gafodd ddyfarniad o gredyd cynhwysol, naill ai fel ceisydd unigol neu fel un o geiswyr ar y cyd—

(i) pan oedd y dyfarniad yn cynnwys elfen y plentyn, a

(ii) pan oedd gan y ceisydd unigol incwm a enillir neu, yn ôl fel y digwydd, y ceiswyr ar y cyd incwm a enillir cyfunol, o £935.00 neu lai;

(c) a gafodd ddyfarniad o gredyd cynhwysol, naill ai fel ceisydd unigol neu fel un o geiswyr ar y cyd—

(i) pan oedd gan y ceisydd unigol neu, yn ôl fel y digwydd, un o'r ceiswyr ar y cyd neu'r ddau ohonynt, allu cyfyngedig i weithio, a

(ii) pan oedd gan y ceisydd unigol incwm a enillir neu, yn ôl fel y digwydd, y ceiswyr ar y cyd incwm a enillir cyfunol, o £935.00 neu lai; neu

(ch) a oedd yn blentyn neu'n berson ifanc cymwys y mae derbynnydd y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) neu (c) yn gyfrifol amdano (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf 2012 (credyd cynhwysol) a rheoliadau a wneir odani).

(1B) Pan fo paragraff (1C) yn gymwys, mae person i gael ei drin fel â hawl i hawlio ad-daliad ffi GIG neu dreuliau teithio GIG o dan reoliad 10 (ceisiadau am ad-daliad).

(1C) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo'r amodau yn is-baragraffau (a), (b), (c) neu (ch) o baragraff (1A) wedi eu bodloni yn y cyfnod asesu y mae'r prawf golwg yn cael ei gynnal ynddo ac—

(a) nad oes cyfnod asesu perthnasol; neu

(b) nad oedd yr un o'r amodau hynny wedi ei fodloni yn y cyfnod asesu perthnasol.

(1CH) At ddibenion paragraffau (1A) ac (1C)—

mae i "ceiswyr ar y cyd" yr ystyr a roddir i "joint claimants" yn adran 40 o Ddeddf 2012 (dehongli Rhan 1);

mae i "ceisydd unigol" yr ystyr a roddir i "single claimant" yn adran 40 o Ddeddf 2012 (dehongli Rhan 1);

ystyr "cyfnod asesu" ("*assessment period*") yw'r cyfnod asesu at ddibenion credyd cynhwysol fel y'i pennir yn rheoliad 21 o Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013 (cyfnodau asesu)(**7**);

ystyr "cyfnod asesu perthnasol" ("*relevant assessment period*") yw'r cyfnod asesu yn union cyn y cyfnod y talwyd y ffi GIG neu yr ysgwyddwyd y treuliau teithio GIG ynddo;

ystyr "elfen plentyn" ("*child element*") yw elfen plentyn credyd cynhwysol fel y'i pennir yn rheoliad 24(1) o Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013 (elfen y plentyn);

ystyr "gallu cyfyngedig i weithio" ("*limited capability for work*") yw gallu cyfyngedig i weithio neu allu cyfyngedig i weithio ac i wneud gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith fel y'u dehonglir yn unol â rheoliadau 39 a 40, yn y drefn honno, o Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013 (gallu cyfyngedig i weithio; gallu cyfyngedig i weithio ac i wneud gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith);

ystyr "incwm a enillir" ("*earned income*") yw incwm a enillir person fel y'i diffinnir gan Bennod 2 o Ran 6 o Reoliadau Credyd Cynhwysol 2013 (cyfrifo cyfalaf ac incwm – incwm a enillir); ac

mae i "person ifanc cymwys" yr ystyr a roddir i "qualifying young person" yn adran 10(5) o Ddeddf 2012 (cyfrifoldeb am blant a phersonau ifanc)..".

(4) Yn Atodlen 1 (addasu Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987), yng ngholofn 2 o Dabl A, yn yr addasiad o reoliad 62 (cyfrifo incwm grant)—

(a) ym mharagraff (2C)(a)—

(i) yn lle "regulations 57 to 59 of the Education (Student Support) Regulations 2009" rhodder "regulations 57 to 60 of the Education (Student Support) Regulations 2011"(**8**); a

(b) ym mharagraff (2C)(b)—

(i) yn lle "regulations 39 to 41 of the Assembly Learning Grants and Loans (Higher Education) (Wales) (No.2) Regulations 2011" rhodder "regulations 37 to 39 of the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2015"(**9**); a

(ii) yn lle "regulations 49 to 52" rhodder "regulations 46 to 49".

**Darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â Rheoliadau 1986**

**6.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person, cyn 1Ebrill 2017, yn mynd i gost mewn cysylltiad â phrawf golwg gan ymarferydd meddygol offthalmig neu optegydd, heb i daleb gael ei chwblhau, ac—

(a) yn union cyn y dyddiad hwnnw, y byddai hawl wedi bod gan berson i gael prawf golwg o dan wasanaethau offthalmig cyffredinol yn rhinwedd paragraff 2(q) o reoliad 13 o Reoliadau 1986 (profion golwg – cymhwystra); a

(**7**) O.S. 2013/376.
(**8**) O.S. 2011/1986.
(**9**) O.S. 2015/54 (Cy. 5); diwygiwyd gan O.S. 2015/1505 (Cy. 173), 2016/77 (Cy. 34) a 2016/211 (Cy. 84).

(b) ond am gymhwyso paragraff (2), y byddai hawl y person hwnnw yn peidio yn rhinwedd y diwygiadau a wneir i reoliad 13 gan reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae rheoliad 6 o Reoliadau 1997 (taliadau i gleifion mewn cysylltiad â phrofion golwg) yn cael effaith mewn perthynas â chymhwystra'r person hwnnw i gael taliad fel—

(a) pe na bai'r diwygiadau a wneir gan reoliad 3 o'r Rheoliadau hyn wedi dod i rym; a

(b) pe bai'r person hwnnw yn "eligible person" at ddibenion rheoliad 6(1) o Reoliadau 1997.

**Darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â Rheoliadau 1997**

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person, cyn 1Ebrill 2017, yn mynd i gost mewn cysylltiad â chyflenwi, amnewid neu drwsio teclyn optegol cyn 1Ebrill 2017 ac—

(a) yn union cyn y dyddiad hwnnw, yr oedd y person hwnnw yn gymwys i gael taliad yn rhinwedd rheoliad 8 (cymhwystra – cyflenwi teclynnau optegol) neu reoliad 15 (cymhwystra – amnewid neu drwsio) o Reoliadau 1997; a

(b) ond am gymhwyso paragraff (2), y byddai hawl y person hwnnw yn peidio yn rhinwedd y diwygiadau a wneir i reoliad 8 o'r Rheoliadau hynny gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae rheoliad 20 o Reoliadau 1997 (taliadau i gleifion mewn cysylltiad â chyflenwi, amnewid neu drwsio teclynnau optegol) yn parhau i gael effaith mewn perthynas â chymhwystra'r person hwnnw i gael taliad fel pe na bai'r diwygiadau a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn wedi dod i rym.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan ddyroddwyd taleb, cyn 1 Ebrill 2017, i berson yn unol â rheoliad 9 (dyroddi talebau gan ymarferwyr meddygol offthalmig neu optegwyr), 10 (dyroddi talebau gan ymddiriedolaethau'r GIG) neu 11 (dyroddi talebau amnewid gan ymddiriedolaethau'r GIG neu awdurdodau iechyd) o Reoliadau 1997; a

(b) pan nad oedd y daleb honno wedi ei derbyn cyn y dyddiad hwnnw.

(4) Pan fo paragraff (3) yn gymwys, rhaid i daleb o'r fath gael ei phrosesu yn unol â darpariaethau Rheoliadau 1997 fel pe na bai'r diwygiadau a wneir gan reoliad 4 o'r Rheoliadau hyn wedi dod i rym.

**Darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â Rheoliadau 2007**

**8.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan eir, cyn 1 Ebrill 2017, i dreuliau teithio GIG neu pan fo ffi GIG yn cael ei thalu ac—

(a) yn union cyn y dyddiad hwnnw, yr oedd hawl gan berson i gael taliad llawn treuliau teithio GIG neu i beidio â thalu ffi GIG o gwbl yn rhinwedd rheoliad 5 o Reoliadau 2007 (hawl i beidio â thalu ffi o gwbl ac i gael taliad llawn); a

(b) ond am gymhwyso'r rheoliad hwn, y byddai hawl y person hwnnw yn peidio yn rhinwedd y diwygiadau a wneir i reoliad 5 o'r Rheoliadau hynny gan reoliad 5 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae rheoliad 5 o Reoliadau 2007 yn parhau i gael effaith fel pe na bai'r diwygiadau a wneir gan reoliad 5 o'r Rheoliadau hyn wedi dod i rym.

**Dirymu**

**9.** Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2016(**10**) wedi eu dirymu.

(**10**) O.S. 2016/97 (Cy. 46).

*Vaughan Gething*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

8 Mawrth 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986 (O.S. 1986/975), Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 (O.S. 1997/818) a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1104 (Cy. 116)).

Maent yn dirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2016 (O.S. 2016/97 (Cy. 46)) ac yn cyflwyno trothwyon ar gyfer personau sy'n cael credyd cynhwysol os ydynt i fod yn gymwys i gael ad-daliad o dreuliau teithio a chymorth mewn cysylltiad â chostau penodol sy'n ymwneud ag iechyd.

Mae rheoliad 13 o Reoliadau 1986 yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy sydd â hawl i gael profion golwg gwasanaethau offthalmig cyffredinol o dan Ran 6 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006.

Mae rheoliad 8 o Reoliadau 1997 yn darparu ar gyfer cynllun i daliadau gael eu gwneud, drwy system dalebau, mewn cysylltiad â chostau y mae categorïau penodol o bersonau yn mynd iddynt mewn cysylltiad â chyflenwi teclynnau optegol.

Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2007 yn gwneud darpariaeth i alluogi pobl sy'n cael budd-daliadau gwladwriaeth penodol, neu sydd ar incwm isel, i gael eu had-dalu ar gyfer treuliau teithio yr eir iddynt wrth gael gwasanaethau GIG penodol ac i fod yn esempt rhag talu ffioedd GIG penodol, heb yr angen i wneud hawliad.

Mae rheoliadau 3, 4 a 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 13 o Reoliadau 1986, rheoliad 8 o Reoliadau 1997 a rheoliad 5 o Reoliadau 2007 yn y drefn honno, fel bod hawl, ar ôl 1 Ebrill 2017, gan berson sy'n cael credyd cynhwysol heb elfen plentyn, heb elfen gallu cyfyngedig i weithio neu heb elfen gallu cyfyngedig i weithio ac i wneud gweithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith yn rhan o'i ddyfarniad, i gael ad-daliad llawn o dreuliau teithio penodol sy'n ymwneud â thriniaeth GIG, i beidio â thalu ffioedd GIG penodol ac i gael cymorth sy'n ymwneud â darparu profion golwg gwasanaethau offthalmig cyffredinol a chyflenwi teclynnau optegol, os nad oes gan y person hwnnw unrhyw incwm a enillir neu incwm a enillir o £435 neu lai yn y cyfnod asesu credyd cynhwysol perthnasol. Bydd hefyd hawl gan berson (neu berson ifanc cymwys y mae'r derbynnydd yn gyfrifol amdano) i gael yr ad-daliad, i beidio â thalu ac i gael cymorth os yw'r person hwnnw yn cael credyd cynhwysol gydag unrhyw un neu ragor o'r elfennau a grybwyllwyd uchod fel rhan o'r dyfarniad ac nad oes ganddo unrhyw incwm a enillir neu incwm a enillir o £935 neu lai yn y cyfnod asesu credyd cynhwysol perthnasol.

Mae rheoliadau 6 i 8 yn gwneud darpariaeth drosiannol i sicrhau bod personau, y codwyd eu hawl i gael ad-daliad o dreuliau teithio neu, i beidio â thalu ffi neu i gael cymorth gyda chost cyn 1 Ebrill 2017, yn gallu cael ad-daliad, yn gallu peidio â thalu neu'n gallu cael cymorth ar ôl y dyddiad hwnnw, er gwaethaf y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 9 yn dirymu Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Canlyniadol Diwygio Lles) (Cymru) 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.